

## PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD MAWRTH, 2 TACHWEDD 2021

Yn Cynghorydd Weaver(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Dilwar Ali a/ac Howells

37 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lay a'r Cynghorydd Thomas.

38 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

39 : DIWYGIADAU I GYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD PARTNERIAETH  
PENSIWN CYMRU

Cafodd y Pwyllgor wybod mai Cyngor Dinas Caerdydd yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ('y Gronfa') sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Cymru a Lloegr. Yn dilyn adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 30 Mehefin 2016, sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Pensiynau a dirprwywyd swyddogaethau strategol yn ymwneud â Phensiynau i'r Pwyllgor. Dirprwyir swyddogaethau gweithredol a gweinyddol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.

Ym mis Chwefror 2017 cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau adroddiad i'r Cyngor a oedd yn amlinellu sut yr oedd yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru wedi ymateb i argymhellion GTCLIL ar gyfer cyfuno buddsoddiadau CPLIL. Roedd argymhellion yr adroddiad yn cynnwys bod y Cyngor yn cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor, a elwir yn Gyd-bwyllgor Llywodraethu, i fod yn gorff gwneud penderfyniadau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a goruchwyllo ei gweithgareddau.

Roedd adroddiad Chwefror 2017 hefyd yn gofyn i'r Cyngor nodi'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) drafft rhwng yr wyth Awdurdod Etholaethol yn y PPC gydag awdurdod dirprwyedig i lofnodi'r fersiwn derfynol o'r CRhA sy'n cael ei drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau. Mae'r CRhA yn nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y PPC, hawliau a rhwymedigaethau'r wyth awdurdod sy'n cymryd rhan a'r pwerau a chyfrifoldebau a ddirprwywyd i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Dim ond gyda chytundeb yr wyth awdurdod cyfansoddol y gellir diwygio neu derfynu'r CRhA.

### **Diwygiadau i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA)**

Mae'r PPC bellach wedi'i hen sefydlu ac mae wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu wyth is-gronfa fuddsoddi mewn asedau rhestredig sy'n cwmpasu Ecwiti (3 is-gronfa) ac Incwm Sefydlog (5 is-gronfa) gyda lansiad pellach o'r Gronfa Ecwiti ar ddiwedd mis Hydref 2021. Bydd sylw'r PPC nawr yn troi at ddarparu cyfleoedd buddsoddi ar gyfer Cronfeydd Awdurdodau Etholaethol y PPC ar gyfer yr asedau "Marchnad Breifat" llai hylifol. Yn ogystal, mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn ceisio gwella ei drefniadau llywodraethu yn unol â datblygu arfer gorau. Mae'r ddau ddatblygiad hyn

yn gofyn am newidiadau i'r CRhA gyda'r fersiwn ddiwygiedig o'r CRhA wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

Mae Asedau Marchnad Breifat yn cynnwys Eiddo, Seilwaith, Ecwiti Preifat a Chredyd Preifat sydd â nodweddion gwahanol i asedau rhestredig. O ganlyniad, mae'r llwybr i'r farchnad i sefydlu Cronfeydd lle gall yr Awdurdodau Cyfansoddol fuddsoddi ar gyfer yr asedau hyn yn fwy pwrpasol ac arbenigol na'r rhai y mae'r PPC wedi'u mabwysiadu'n llwyddiannus ar gyfer ecwiti rhestredig ac incwm sefydlog. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, ar ôl cymryd cyngor proffesiynol priodol, wedi cytuno bod "Dyrannwr/Dyranwyr arbenigol gyda phrofiad helaeth a gwybodaeth arbenigol am Farchnadoedd Preifat yn cael eu penodi i ddatblygu'r is-gronfeydd hyn ar gyfer y PPC. Bydd y diwygiad arfaethedig i'r CRhA yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am benodiadau a therfyniadau o ran rôl y Dyrannwr yn y dyfodol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi bod yn ystyried ers peth amser sut y gellid penodi cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Cynigir y byddai cynrychiolydd o'r Cynllun yn gallu ymuno â'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ond dim ond fel aelod nad yw'n pleidleisio. Fodd bynnag, byddai'n gallu derbyn papurau Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn ogystal â mynychu a siarad mewn cyfarfodydd, gan gynnwys eitemau eithriedig. Nid yw'r CRhA fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnwys cynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun sydd bellach wedi'i gynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig.

Yn ogystal â'r ddau welliant a amlinellir uchod, cymerwyd y cyfle hefyd i gynnal adolygiad llawn o'r CRhA ac o ganlyniad bydd nifer o fân newidiadau hefyd yn cael eu gwneud. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r profiad ymarferol a gafwyd ers i'r PPC fod yn weithredol ac yn cyfeirio at ddiffinio rôl Gweithgor y Swyddogion (GS) yn gliriach a chylch gorchwyl is-grwpiau sy'n adrodd iddo.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Pwyllgor yn argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo Gwelliannau'r CRhA.

40 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

41 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 29 TACHWEDD 2021

Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 pm